Cludiant Ysgol – Tywydd Drwg

Os yw ysgol/coleg ar agor, y cwmnïau sy'n darparu cludiant sy'n penderfynu a fydd yn y gwasanaeth yn rhedeg ai peidio os bydd tywydd drwg. Byddant yn ystyried yr amgylchiadau ar y pryd, y rhagolygon hyd at 9:00am a gweddill y dydd, y siwrnai, y man cychwyn a'r amgylchiadau yn yr ysgol/coleg. Dylai rhieni/myfyrwyr holi'r darparwr neu ffonio Tîm Cludiant Ysgolion Sir y Fflint ar 01352 702511 / 704543

Os na fydd cludiant ar gael i'r ysgol/coleg yn y bore oherwydd tywydd drwg, ni fydd cludiant adref chwaith, hyd yn oed os yw'r tywydd yn gwella. O dan yr amgylchiadau hyn, os yw rhieni/gofalwyr yn danfon myfyrwyr i'r ysgol/coleg eu hunain yn y bore, nhw fydd yn gyfrifol am eu cludo adref hefyd ar ddiwedd y dydd, neu'n gynharach os caiff yr holl fyfyrwyr eu hanfon adref o'r ysgol/coleg oherwydd y tywydd.

Penderfyniad y Pennaeth fydd cau ysgol, yn dilyn asesiad risg yn seiliedig ar nifer o ffactorau. Bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad hwn er na fydd modd gwybod yn iawn sut fydd y tywydd yn newid yn ystod y dydd. Caiff gwybodaeth am yr ysgolion/colegau sydd wedi cau oherwydd tywydd drwg ei phostio ar wefan Cyngor Sir y Fflint cyn gynted â phosibl a bydd cyhoeddiadau hefyd ar Coast FM. Edrychwch hefyd ar wefannau ysgolion unigol.

O ran trafnidiaeth gyhoeddus, dylech holi'r darparwr cyn teithio neu ffonio Llinell Bws Sir y Fflint ar 01352 704035 neu Traveline Cymru ar 0871 200 22 33.